

Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau 2024 - 2025

Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau

Mae'r Cynllun hwn yn cael ei wneud o dan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol Cymru (IRPW) sy'n gymwys ar gyfer daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol.

1. Cyflog Sylfaenol

- 1.1. Bydd Cyflog Sylfaenol yn cael ei dalu i bob Aelod etholedig o'r Awdurdod
- 1.2. Yn unol â'r Rheoliadau, bydd gyfradd y Cyflog Sylfaenol yn cael ei hadolygu bob blwyddyn fel y penderfynir gan y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
- 1.3. Lle mae'r cyfnod swydd Aelod yn dechrau neu'n gorffen heblaw am ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl ef/hi i gael y Cyflog Sylfaenol ar statws pro-rata.
- 1.4. Nid oes mwy nag un Cyflog Sylfaenol yn daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

2. Cyflogau Uwch a Chyflogau Dinesig

- 2.1. Bydd Aelodau mewn swyddi penodol yn cael ei dalu Uwch Gyflog fel y nodir yn **Atodlen 1**.
- 2.2. Yn unol â'r Rheoliadau, bydd y cyfraddau Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig yn cael ei adolygu'n flynyddol fel y pennir gan Adroddiad Blynyddol neu Atodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
- 2.3. Dim ond un Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig sy'n daladwy i Aelod o'r Awdurdod
- 2.4. Ni all Aelod o'r Awdurdod gael ei dalu Uwch Gyflog a Chyflog Dinesig.
- 2.5. Mae pob Cyflog Uwch a Dinesig yn cynnwys y Cyflog Sylfaenol.
- 2.6. Ni chaiff Cyflog Uwch ei dalu i fwy na nifer yr aelodau a bennir gan y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol ac ni all fod yn fwy na hanner cant y cant o gyfanswm aelodaeth yr awdurdod, ac eithrio i gynnwys swydd Uwch Gyflog dros dro i gyflenwi ar gyfer absenoldeb teuluol y deiliad swydd a benodwyd.
- 2.7. Ni all Aelod o'r Awdurdod yn derbyn Uwch Gyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) neu Awdurdod Tân ac Achub (ATA) y mae ef / hi wedi cael ei enwebu iddynt.

Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau

2.8. Lle mae'r tymor Aelod sy'n derbyn Uwch Gyflog neu Gyflog dinesig yn dechrau neu'n gorffen tu allan i ddechrau neu ddiwedd y flwyddyn arferol, bydd ei hawl ef/hi i Gyflog fod yn pro-rata.

3. Penderfyniad i Beidio â Derbyn y Lwfans

3.1. Gall Aelod, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i Swyddog Priodol yr awdurdod, yn bersonol ddewis peidio â derbyn unrhyw ran o'i hawl i unrhyw gyflog, lwfans neu ffi sy'n daladwy o dan y Cynllun hwn o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad.

4. Atal Aelod

4.1. Pan fydd Aelod o'r Awdurdod yn cael ei atal, yn llwyr neu'n rhannol, o'i gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, mae rhan y Cyflog Sylfaenol sy'n daladwy iddo / iddi mewn perthynas â'r cyfnod y mae ef neu hi yn cael ei atal yn cael ei ddal yn ôl gan yr Awdurdod (Adran 155 (1) o'r Mesur).

4.2. Pan fydd Aelod sy'n derbyn Uwch Gyflog yn cael ei atal, yn llwyr neu'n rhannol, rhag bod yn Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i'r Awdurdod peidio â gwneud taliadau Uwch Gyflog i'r Aelod drwy gydol cyfnod yr ataliad (Adran 155 (1) o'r Mesur). Os yw'r atal rhannol yn ymwneud yn unig ag elfen chyfrifoldeb penodol y taliad, gall yr aelod gadw'r Cyflog Sylfaenol.

5. Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd

5.1. Pan fydd taliad unrhyw gyflog, lwfans neu ffi wedi cael ei wneud i Aelod o'r Awdurdod neu Aelod Cyfetholedig mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan fydd yr Aelod dan sylw:

Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau

- (a) wedi'i h/atal neu ei h/atal dros dro o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau Aelod / Aelod Cyfetholedig yn unol â Rhan 3 o'r Ddeddf 2000 neu â rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno;
- (b) wedi rhoi'r gorau ar fod yn Aelod o'r Awdurdod neu'r Aelod Cyfetholedig
- (c) neu mewn unrhyw ffordd arall heb yr hawl i dderbyn cyflog, lwfans neu ffi mewn cysylltiad â'r cyfnod hwnnw,

bydd yr Awdurdod yn ei wneud yn ofynnol bod y cyfryw ran o'r lwfans sy'n ymwneud ag unrhyw gyfnod o'r fath yn cael ei ad-dalu.

6. Taliadau

- 6.1. Bydd taliadau'r holl lwfansau yn cael eu gwneud mewn rhandaliadau o un rhan o ddeuddeg o hawl blynyddol yr Aelod.
- 6.2. Pan fydd y taliad wedi arwain at Aelod yn derbyn mwy nag ganddo / ganddi hawl i gyflogau, lwfansau neu ffioedd y bydd yr Awdurdod yn gofyn bod y rhan honno sy'n ordaliad yn cael ei ad-dalu.
- 6.3. Mae'r holl daliadau yn ddarostyngedig i'r dreth briodol a didyniadau Yswiriant Gwladol.

7. Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol

- 7.1. Bydd Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol yn cael ei roi i Aelod neu Aelod Cyfetholedig, sydd â chyfrifoldeb gofalu am blant neu oedolion dibynnol, ar yr amod bod yr Aelod yn mynd i gostau wrth ddarparu gofal o'r fath wrth wneud dyletswyddau 'cymeradwy' y cyngor.
- 7.2. Mae Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol yn gymwys mewn perthynas â phlant sy'n 15 oed neu ieuengach a phobl eraill y mae'r Aelod neu'r Aelod Cyfetholedig yn gallu dangos bod angen gofal arnynt. Os oes gan Aelod neu Aelod Cyfetholedig fwy nag un dibynnydd, caiff yr Aelod hawlio mwy nag un lwfans, ar yr amod y gall yr Aelod ddangos bod angen gwneud trefniadau ar wahân ar gyfer gofal. Beirniadir pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun.

Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau

7.3. Gall aelodau cymwys wneud cais am Gyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol ar gyfer costau gwirioneddol gyda derbynneb, fel y nodir yn Atodlen 1. Dylai'r holl hawliadau am Lwfans Gofal gael eu gwneud ar y ffurflen yn rhoi manylion amseroedd, dyddiadau a rhesymau dros hawlio. Mae'n ofynnol i roi derbynebau ar gyfer y trefniant gofal anffurfiol a ffurfiol.

8. Absenoldeb Teuluol

- 8.1. Mae hawl gan Aelodau o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 i gyfnod o absenoldeb teuluol, lle os ydynt yn bodloni'r amodau a ragnodir mai ganddynt hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd yr awdurdod.
- 8.2. Wrth gymryd absenoldeb teuluol mae gan Aelodau'r hawl i gadw cyflog sylfaenol beth bynnag yw eu cofnod presenoldeb yn union cyn cychwyn yr absenoldeb teuluol.
- 8.3. Petai ddeiliad uwch gyflog yn gymwys i gael absenoldeb teuluol byddant yn gallu parhau i dderbyn eu cyflog uwch drwy gydol yr absenoldeb.
- 8.4. Os bydd yr awdurdod yn cytuno ei bod yn angenrheidiol i wneud apwyntiad eilydd i ddirprwyo dros absenoldeb teuluol y deiliad uwch gyflog bydd yr Aelod sy'n dirprwyo yn gymwys i dderbyn uwch gyflog hefyd os yw'r awdurdod yn penderfynu felly.
- 8.5. Os bydd y taliad i'r apwyntiad eilydd yn achosi'r awdurdod i dorri'r 'cap' ar ei nifer uchaf o uwch gyflogau, bydd ychwanegiad at yr uchafswm yn cael ei ganiatáu am gyfnod apwyntiad yr eilydd.

9. Taliadau i Aelodau Cyfetholedig

- 9.1. Rhaid i ffi ddyddiol Aelodau Cyfetholedig (gyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod ac awr) gael ei dalu i aelodau cyfetholedig, ar yr amod eu bod yn Aelodau Cyfetholedig statudol gyda hawliau pleidleisio.

Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau

- 9.2. Bydd taliadau yn cymryd i ystyriaeth amser yn teithio yn ôl ac ymlaen i leoliad y cyfarfod, amser rhesymol ar gyfer paratoi a hyd y cyfarfod (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).
- 9.3. Mae'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei ddynodi fel y "swyddog priodol" a bydd yn pennu amser paratoi, amser teithio a hyd y cyfarfod, bydd y ffi yn cael ei dalu ar sail y penderfyniad hwn.
- 9.4. Gall y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd penderfynu o flaen llaw a yw cyfarfod yn cael ei raglennu ar gyfer diwrnod llawn a bydd y ffi yn cael ei dalu ar sail y penderfyniad hwn hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn dod i ben cyn mae pedair awr wedi mynd heibio.
- 9.5. Mae cyfarfod hanner diwrnod yn cael ei ddiffinio fel hyd at 4 awr.
- 9.6. Mae cyfarfod diwrnod llawn yn cael ei ddiffinio fel dros 4 awr.
- 9.7. Mae'r ffi diwrnod, hanner diwrnod ac awr ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Archwilio, fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn cael ei nodi yn **Atodlen 1**.
- 9.8. Mae'r ffi diwrnod, hanner diwrnod ac awr ar gyfer Aelodau Cyfetholedig statudol gyda hawliau pleidleisio, fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn cael ei nodi yn **Atodlen 1**.

10. Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth

- 10.1. **Egwyddorion Cyffredinol**
- 10.2. Gall Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig hawlio costau teithio wrth deithio ar fusnes yr Awdurdod ar gyfer 'dyletswyddau cymeradwy' fel y nodir yn **Atodlen 2**. Lle bo aelodau'n teithio ar fusnes yr Awdurdod y disgwylir iddynt ei deithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-ffeithiol. Wrth asesu cost-ffeithiolrwydd bydd ystyriaeth yn cael ei roi i amser teithio. Gall cais costau gan Aelod nad yw'n teithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-ffeithiol yn cael ei leihau gan y swm priodol.
- 10.3. Lle'n bosibl dylai Aelodau rannu cludiant.
- 10.4. Dylai'r pellter a hawlir am filltiroedd fod am y daith fyrraf resymol ar y ffordd o'r man ymadael at y pwynt lle mae'r ddyletswydd yn cael ei berfformio, ac yn yr un modd o'r man ddyletswydd i'r lle ddychwelyd.

Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau

- 10.5. Mae cyfraddau Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth Aelodau wedi'u nodi yn **Atodlen 3** ac maent yn destun adolygiad blynyddol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
- 10.6. Pan fydd Aelod yn cael ei h/atal yn llwyr neu'n rhannol o'i ch/gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i unrhyw lwfansau teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy iddo / iddi mewn perthynas â'r cyfnod y mae ef neu hi yn cael ei h/atal cael ei ddal yn ôl gan yr Awdurdod.

11. Teithio mewn Cerbyd Personol

- 11.1. Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu y dylai'r cyfraddau teithio uchaf sy'n daladwy fydd y cyfraddau a nodir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer y defnydd o geir preifat, beiciau modur a beiciau pedal yn ogystal ag unrhyw atodiad teithwyr.
- 11.2. Mae'r cyfraddau milltired ar gyfer cerbydau preifat fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi'u nodi yn **Atodlen 3**.
- 11.3. Pan fydd Aelod yn defnyddio ei g/cherbyd preifat ar gyfer dibenion dyletswydd gymeradwy, rhaid i'r cerbyd gael ei yswirio at ddefnydd busnes. Rhaid darparu prawf o yswiriant priodol i'r Awdurdod ar gais.

12. Teithio ar Gludiant Cyhoeddus

- 12.1. **Taith Trên / Bws**
Oni bai bod caniatâd arbennig wedi'i rhoi, bydd pob tocyn a brynir yn docyn ail-ddosbarth.
- 12.2. **Costau Tacsî**
Bydd costau tacsî ond yn cael eu had-dalu lle mae eu defnydd wedi eu caniatáu ar gyfer achosion brys, lle nad oes cludiant cyhoeddus ar gael yn

Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau

rhesymol, neu mae gan Aelod angen personol penodol. Bydd ad-daliad ar sail derbynneb yn unig.

12.3. Costau Teithio Eraill

Bydd hawl gan Aelodau i gael ad-daliad ffioedd tollau, ffioedd parcio, garejis dros nos a chostau eraill sy'n gysylltiedig â theithio angenrheidiol. Bydd ad-daliad fod ar sail derbynneb yn unig.

13. Llety Dros Nos

- 13.1. Bydd aros dros nos yn cael ei ganiatáu lle mae busnes yr Awdurdod yn ymestyn i ddau ddiwrnod neu fwy yn unig, neu os yw'r lleoliad ar bellter o'r fath y byddai teithio'n gynnar yn y bore neu'n hwyr y nos yn afresymol. Rhaid i bob arhosiad dros nos yn derbyn caniatâd ymlaen llaw gan y Democratic Services Manager.
- 13.2. Bydd archebu uniongyrchol o lety dros nos gan Aelod yn cael ei ganiatáu mewn achos o argyfwng yn unig. Bydd ad-dalu dim ond ar gynhyrchu derbynneb a bydd ar lefel a ystyrir yn rhesymol ac nid yn fwy na'r cyfraddau a nodir yn **Atodlen 3**.

14. Lwfans Cynhaliaeth

- 14.1. Mae'r gyfradd cynhaliaeth ddiwrnod i gwrdd â chostau prydau bwyd a lluniaeth mewn cysylltiad â dyletswyddau cymeradwy (gan gynnwys brechwast pan na ddarperir fel rhan o lety dros nos) yn cael ei nodi yn **Atodlen 3**. Mae'r gyfradd ddyddiol uchaf yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd sy'n berthnasol, gan ddarparu fod cais o'r fath yn cael ei gefnogi gan dderbynebau)
- 14.2. Nid oes darpariaeth ar gyfer hawliadau cynhaliaeth o fewn y Sir.

Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau

15. Pensiynau

- 15.1. Bydd yr Awdurdod yn galluogi ei aelodau sy'n gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

16. Cydymffurfiaeth

- 16.1. Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â gofynion y Panel mewn perthynas â'r monitro a chyhoeddi taliadau a wnaed i aelodau ac aelodau cyfetholedig fel y nodir yn **Atodlen 4**.

Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau

Atgoffir yr Aelodau bod ceisiadau treuliau yn destun archwilio mewnol ac allanol.

Atodlen 1

Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol 2024-25

Aelodau Sydd â'r Hawl i Gyflog Sylfaenol

Swm Blynyddol Cyflog Sylfaenol - £18,666

Yr aelodau etholedig canlynol o'r awdurdod a enwir:

- Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones
- Y Cynghorydd Ellie Chard
- Y Cynghorydd Kelly Clewett
- Y Cynghorydd Ann Davies
- Y Cynghorydd Karen Edwards
- Y Cynghorydd Pauline Edwards
- Y Cynghorydd James Elson
- Y Cynghorydd Hugh Evans
- Y Cynghorydd Chris Evans
- Y Cynghorydd Justine Evans
- Y Cynghorydd Jon Harland
- Y Cynghorydd Martyn Hogg
- Y Cynghorydd Carol Holliday
- Y Cynghorydd Alan Hughes
- Y Cynghorydd Brian Jones
- Y Cynghorydd Delyth Jones
- Y Cynghorydd Paul Keddie
- Y Cynghorydd Geraint Lloyd-Williams
- Y Cynghorydd James May
- Y Cynghorydd Terry Mendies
- Y Cynghorydd Raj Metri

Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau

- Y Cynghorydd Merfyn Parry
- Y Cynghorydd Arwel Roberts
- Y Cynghorydd Gareth Sandilands
- Y Cynghorydd Andrea Tomlin
- Y Cynghorydd Michelle Walker
- Y Cynghorydd David Williams
- Y Cynghorydd Cheryl Williams
- Y Cynghorydd Eryl Williams
- Y Cynghorydd Elfed Williams

Uwch Gyflogau (Yn Cynnwys Cyflog Sylfaenol)

1. Arweinydd y Cyngor - Y Cynghorydd Jason McLellan - £59,498
2. Dirprwy Arweinydd y Cyngor - Y Cynghorydd Julie Matthews - £41,649
3. Aelod Cabinet - Y Cynghorydd Gwyneth Ellis - £35,699
4. Aelod Cabinet - Y Cynghorydd Elen Heaton - £35,699
5. Aelod Cabinet - Y Cynghorydd Diane King - £35,699
6. Aelod Cabinet - Y Cynghorydd Barry Mellor - £35,699
7. Aelod Cabinet - Y Cynghorydd Alan James - £35,699
8. Aelod Cabinet - Y Cynghorydd Rhys Thomas - £35,699
9. Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Emrys Wynne - £35,699
10. Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau - Y Cynghorydd Joan Butterfield - £27,999
11. Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau - Y Cynghorydd Huw Williams - £27,999
12. Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad - Y Cynghorydd Hugh Irving - £27,999
13. Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio - Y Cynghorydd Mark Young - £27,999
14. Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu - Y Cynghorydd Bobby Feeley - £27,999
15. Arweinydd y Grŵp Mwyaf o'r Gwrthbleidiau - Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts - £27,999

Gall uchafswm o 17 o uwch gyflogau yn cael ei dalu yng Nghyngor Sir Ddinbych ac nid yw hyn wedi cael ei dorri.

Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau

Cyflogau Dinesig (Yn Cynnwys Cyflog Sylfaenol)

- Arweinydd Dinesig (Cadeirydd) - Y Cynghorydd Peter Scott - £27,999
- Dirprwy Arweinydd Dinesig (Is-gadeirydd) - Gwag - £22,406

Hawl Fel Aelodau Cyfetholedig Statudol

- Cadeirydd Pwyllgor Safonau – Julia Hughes - £268 ffi ddyddiol, £134 ffi hanner diwrnod, £33.50 ffi awr
- Aelodau Cyfetholedig Statudol – Pwyllgor Safonau - Anne Mellor, Peter Lamb a Gordon Hughes - £210 ffi ddyddiol, £105 ffi hanner diwrnod, £26.25 ffi awr
- Aelodau Cyfetholedig Statudol – Pwyllgorau Craffu - Neil Roberts, Colette Owen - £210 ffi ddyddiol, £105 ffi hanner diwrnod, £26.25 ffi awr
- Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – David Stewart - £268 ffi ddyddiol, £134 ffi hanner diwrnod, £33.50 ffi awr
- Aelodau Cyfetholedig Statudol – Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Nigel Rudd, Paul Whitham - £210 ffi ddyddiol, £105 ffi hanner diwrnod, £26.25 ffi awr

Aelodau Sy'n Gymwys i Dderbyn Cyfraniad Tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol

Pob Aelod –

- Costau gofal ffurfiol (wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru) i'w talu yn unol â thystiolaeth.
- Costau gofal anffurfiol (heb gofrestru) i'w talu hyd at gyfradd uchaf sy'n gyfwerth â Chyflog Byw Gwirioneddol y DU ar yr adeg pan aethpwyd i'r costau.

Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau

Atodlen 2

Polisi ar gyfer Talu Costau Teithio a Chynhaliaeth

Cymeradwywyd y dyletswyddau yn y polisi hwn ar gyfer talu costau teithio a chynhaliaeth. Ni thelir costau cynhaliaeth am ddyletswyddau a gyflawnir o fewn ffiniau'r sir.

Pan fydd Aelodau yn cyflwyno hawliadau am gostau teithio a chynhaliaeth, byddant yn sicrhau bod pob hawliad yn cydymffurfio â'r polisi hwn, a thrafodir unrhyw ymholiadau sydd gan aelod ynghylch siwrneiau unigol sy'n gymwys i gael eu talu neu beidio, â'r Gwasanaethau Democrataidd cyn y caiff ei roi ar y ffurflen hawlio.

Bydd ffurflenni hawlio a gyflwynir gan aelodau yn cynnwys dim ond manylion hawliadau a dyletswyddau a gyflawnir ar ran, ac sy'n daladwy gan Gyngor Sir Ddinbych.

Dyletswyddau Cymeradwy a Thelir Costau: -

- mynychu cyfarfod yr Awdurdod neu unrhyw bwyllgor i'r Awdurdod, neu unrhyw gorff y mae'r Awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddynt, neu unrhyw bwyllgor i gorff o'r fath a bod y cynghorydd sy'n gwneud hawliad yn aelod o'r pwyllgor neu'r corff y mae'n gwneud hawliad amdano.
- mynychu cyfarfod unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r Awdurdod yn aelod, a bod y cynghorydd sy'n gwneud yr hawliad wedi'i benodi gan yr Awdurdod fel cynrychiolydd.
- cynghorydd wedi'i enwebu gan yr Awdurdod i fynychu, mewn unrhyw gyfarfod arall a awdurdodwyd gan yr Awdurdod neu gan bwyllgor i'r Awdurdod, neu gan bwyllgor ar y cyd i'r Awdurdod ac un neu fwy o Awdurdodau eraill.
- dyletswydd a gyflawnir gan aelod o'r Cabinet at ddiben cyflawni/ neu mewn cyswllt â chyflawni swyddogaethau'r Cabinet.
- dyletswydd a gyflawnir yn unol â rheol sefydlog sy'n gofyn bod Aelod neu Aelodau yn bresennol pan gaiff dogfennau tendro eu hagar;
- dyletswydd awdurdodedig a gyflawnir mewn perthynas â chyflawni unrhyw swyddogaeth yr Awdurdod sy'n rhoi awdurdod neu'n gofyn bod yr Awdurdod yn arolygu neu awdurdodi arolygiadau o safleoedd.

Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau

- presenoldeb awdurdodedig mewn unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwyir gan yr Awdurdod neu ei Gabinet;

Ni fydd aelodau yn hawlio costau ar gyfer y dyletswyddau canlynol:

- **Ni** thelir am gostau sydd wedi codi wrth fynychu cyfarfodydd fel arsyllwyr.
- **Ni** thelir costau sy'n codi am fynychu digwyddiadau dinesig neu gymdeithasol a drefnir gan yr Awdurdod neu sefydliad allanol (p'run ai yw'r cynghorydd wedi ei wahodd neu beidio i'r digwyddiad). Mae'r rhain yn cynnwys mynychu digwyddiadau seremonïol dinesig, digwyddiadau sy'n nodi agoriad adeiladau neu adeiladau wedi'u hadnewyddu, neu wasanaethau neu ddigwyddiadau cyhoeddusrwydd.

Bydd yr eithriadau canlynol yn berthnasol:

Gellir hawlio am gostau ar gyfer y dyletswyddau canlynol:

- Aelodau'r Cabinet yn mynychu cyfarfod o Bwyllgor Craffu neu Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ôl cael eu gwahodd neu sy'n ofynnol i fynychu'r cyfarfod gan y Pwyllgor Craffu neu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Cadeirydd Pwyllgor Craffu neu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn mynychu cyfarfod o'r Cabinet;
- Aelod o Bwyllgor Craffu neu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn mynychu cyfarfod o'r Cabinet yn unol â chais y Pwyllgor;
- Cynghorydd yn mynychu cyfarfod i'r Awdurdod, neu unrhyw bwyllgor i'r Awdurdod, fel arsyllwr lle mae'r materion a drafodir yn berthnasol yn uniongyrchol, neu'n effeithio'n uniongyrchol â ward y cynghorydd (fel arfer bydd yr eithriad hwn yn cael ei gyfyngu i faterion sy'n effeithio'n sylweddol ar ward penodol, yn hytrach na materion sy'n effeithio llawer o wardiau; dylid trafod unrhyw ymholiadau â'r Gwasanaethau Democrataidd cyn cyflwyno'r hawliad);
- Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor yn mynychu digwyddiadau dinesig fel rhan o'u dyletswyddau dinesig swyddogol i'r Awdurdod.

Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau

Atodlen 3

Costau Milltiroedd

- Cerbydau modur o bob maint
 - Hyd at 10,000 milltir - 45 ceiniog y filltir
 - Dros 10,000 milltir - 25 ceiniog y filltir
- Beiciau modur preifat - 24 ceiniog y filltir
- Beiciau - 20 ceiniog y filltir
- Tâl ychwanegol am deithwyr eraill - 05 ceiniog y filltir

Lwfans Cynhaliaeth

Mae'r gyfradd gynhaliaeth diwrnod yw hyd at uchafswm o £28 ac yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd, os berthnasol, ac os gefnogir gan dderbynebau.

Ni chaniateir ad-dalu ar gyfer ddiodydd alcoholig.

Llety dros nos

Uchafswm y lwfansau ar gyfer aros dros nos yw £200 ar gyfer Llundain a £95 ar gyfer mannau eraill. Mae uchafswm o £30 ar gael ar gyfer aros dros nos gyda ffrindiau neu berthnasau tra ar ddyletswydd gymeradwy.

Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau

Atodlen 4

Cydymffurfiaeth

- Bydd yr awdurdod yn trefnu i gyhoeddi ar wefan y cyngor y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob aelod ac aelod cyfetholedig o ran cyflogau, lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau ddim hwyrach na 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud ag ef. Er budd tryloywder bydd hyn yn cynnwys cydnabyddiaeth o bob penodiad gwasanaethau cyhoeddus a gynhelir gan aelodau etholedig.
- Bydd yr awdurdod yn cyhoeddi ar wefan y cyngor datganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd a disgrifiadau rôl ar gyfer deiliaid swyddi uwch gyflog, sy'n nodi'n glir y dyletswyddau disgwylidig.
- Bydd yr awdurdod yn cyhoeddi ar wefan y cyngor yn flynyddol y Rhestr o Gydabyddiaeth Ariannol Aelodau ddim hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r Rhestr yn cyfeirio ati.
- Bydd yr awdurdod yn anfon copi o'r Rhestr i'r Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol ddim hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r Rhestr yn cyfeirio ati.
- Bydd yr awdurdod yn cadw cofnodion o bresenoldeb aelodau / aelodau cyfetholedig mewn cyfarfodydd o'r cyngor, cabinet a phwyllgorau a dyletswyddau cymeradwy eraill y mae aelod / aelodau cyfetholedig yn cyflwyno cais am ad-daliad amdanynt.
- Bydd yr awdurdod yn trefnu i gyhoeddi ar wefan y cyngor yr adroddiadau blynyddol a baratoir gan yr aelodau.
- Pan fydd yr awdurdod yn cytuno i dalu dirprwy am gyfnod absenoldeb teuluol, bydd yn rhoi gwybod i'r Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol o fewn 14 diwrnod o'r penderfyniad gyda'r manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd y dirprwyad.